# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2020.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 AIL-STRWYTHURO'R UWCH DIM ARWEINYDDIAETH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y Swydd wag Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle a'r angen i ystyried opsiynau posibl ar gyfer gallu symud ymlaen i lenwi bwlch o fewn haen uwch dîm arweinyddiaeth a rheoli y Cyngor. Tra bo rôl y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle yn alinio â gweledigaeth y Cyngor a'i bod yn cryfhau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, mae angen cymryd agwedd bragmatig tuag at y sefyllfa recriwtio bresennol yn ystod y cyfnod argyfwng.

Cyflwynwyd dau opsiwn, yn cynnwys yr ystyriaethau ariannol cefnogol, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor ynghyd ag argymhelliad gan y Prif Weithredwr. Dileu swydd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle a phenodi Penodi un Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a bod swydd newydd, Swyddog Strategaeth Corfforaethol, yn cael ei sefydlu.

Holodd y Cynghorydd A M Jones am y posibilrwydd o ddiwygio'r gofyniad ieithyddol er mwyn caniatau i ymgeiswyr addas allu dysgu'r iaith. Ymatebodd Swyddogion mai dyma'r gofynaid ieithyddol i'r lefel hon o swydd o fewn yr uwch dîm arweinyddiaeth.

Holodd y Cynghorydd R Meirion Jones am natur rôl y Swyddog Strategaeth Corfforaethol o ran datblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Ymatebodd y Prif Weithredwr fod y rôl Swyddog Strategaeth Corfforaethol yn rôl ehangach er mwyn cynorthwyo'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar sawl agwedd wahanol o waith.

Yn dilyn cynnal trafodaeth **PENDERFYNWYD:-**

- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith ac yn dilyn hynny y Cyngor Llawn, y dylid dileu'r swydd Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd o Gyfansoddiad y Cyngor;**
- **Yn dilyn cadarnhad o'r uchod, bod y swydd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd yn cael ei hysbysebu'r allanol;**
- **Bod swydd newydd, Swyddog Strategaeth Corfforaethol, yn cael ei chreu a'i hysbysebu'n allanol.**

Bu'r Cynghorydd A M Jones atal ei bleidlais.

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6 APWYNTIO STAFF**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar ar swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r angen i lenwi'r swydd yn barhaol.

Mynegodd y Cynghorydd A M Jones nad oedd modd iddo ystyried y mater heb dderbyn adroddiad ysgrifenedig.

Cytunodd y Pwyllgor i ohiriad er mwyn derbyn adroddiad ysgrifenedig a gafodd ei baratoi ac a gadarnhawyd yr adroddiad llafar a gyflwynwyd eisoes.

Yn dilyn derbyn yr adroddiad **PENDERFYNWYD yn unfrydol y dylid hysbysebu'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn allanol yn Ionawr, 2021.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**